

3 Process

3.1 Delivering the RoWIP

3.1.1

Early on a timetable was considered which would allow for the preparation of the RoWIP by the target date identified by WAG of 1st November 2007.

3.1.2

The Authority identified initial preliminary works to be undertaken in these early stages of the development of the plan, such as a survey of users, condition reports, review of other council documents, current policies and future proposals. All these stages have filtered into and influenced this plan.

3.2 Key Issues that have been considered

3.2.1

The aforementioned nine issues identified by the LAF as being key to the success of the RoWIP (section 1.3.5) are discussed below. Whilst these points are central to the development of this plan, additional issues raised in the user survey and condition report process, also influence and contribute to the key objectives and actions of this plan and are discussed later in the document.

1. RAISE THE PROFILE OF RIGHTS OF WAY:

In endeavouring to raise the profile of the rights of way network the Authority should consider how it could best advertise the network through different media. One method may be to consider highlighting certain routes due to their circular nature, giving distance, terrain and walking time. The Authority could consider short, medium and longer walks and link these walks to historical sites along the way whereby appealing to a wider audience.

The Internet is one medium that is yet to be fully explored and its full potential utilised. It is intended to promote the network via the Internet in a format that can easily be read by the public, even providing the facility to download walks/route maps and allow user reviews. This has the added benefit of enabling people not living in the immediate area to plan their visits in advance. This facility could also allow users to feed back maintenance and access problems noted by users along the network.

In order to promote routes, more information on their condition use and purpose is necessary. This will require the assessment and estimation of the current condition of the network, albeit without the need to undertake extensive surveys of the entire network. It will require a report on the use of the network and the importance the community attaches to it. Currently there are 846km of registered

3 Proses

3.1 Cyflawni'r CGHT

3.1.1

Yn gynnar yn y broses rhoddwyd sylw i amserlen a fyddai'n caniatáu paratoi'r CGHT erbyn y dyddiad targed a roddwyd gan LCC, sef 1af Tachwedd 2007.

3.1.2

Nododd yr Awdurdod waith rhagarweiniol cychwynnol i'w wneud yn ystod cyfnod cynnar datblygu'r cynllun, megis arolwg defnyddwyr, adroddiadau ar gyflwr, adolygiadau o ddogfennau eraill y cyngor, polisiau presennol a chynigion at y dyfodol. Mae'r holl gamau hyn wedi cyfrannu at y cynllun hwn ac wedi dylanwadu arno.

3.2 Y prif faterion a gafodd eu hystyried

3.2.1

Mae'r naw mater uchod y nododd y FfMLI eu bod yn allweddol i lwyddiant y CGHT (adran 1.3.5) yn cael eu trafod isod. Er bod y pwyntiau hyn yn ganolog i ddatblygu'r cynllun hwn, mae materion ychwanegol a godwyd yn y broses arolwg defnyddwyr ac adroddiadau ar gyflwr hefyd yn dylanwadu ar ac yn cyfrannu at amcanion a gweithredoedd allweddol y cynllun hwn. Cânt eu trafod yn ddiweddarach yn y ddogfen.

1. CODI PROFFIL HAWLIAU TRAMWY:

Wrth geisio codi proffil y rhwydwaith hawliau tramwy, dylai'r Awdurdod ystyried beth fyddai'r ffordd orau i hysbysebu'r rhwydwaith trwy wahanol gyfryngau. Un dull posibl yw ystyried rhoi sylw arbennig i rai llwybrau penodol oherwydd eu bod yn gylchol, gan roi'r pellter, natur y tir a'r amser mae'n cymryd i gerdded ar hyd-ddynt. Gallai'r Awdurdod ystyried teithiau cerdded byr, canolig a hirach, a'u cysylltu â safleoedd hanesyddol ar hyd y ffordd, a thrwy hynny apelio at gynulleidfa ehangach.

Mae'r Rhyngwrwyd yn un cyfrwng nad ymchwiliwyd iddo'n llawn ac na ddefnyddiwyd ei botensial llawn eto. Bwriedir hyrwyddo'r rhwydwaith trwy'r Rhyngwrwyd mewn fformat y gall y cyhoedd ei ddarllen yn hawdd, gan gynnig hyd yn oed y gallu i lawrlwytho disgrifiadau o deithiau cerdded a mapiau llwybrau a chaniatáu adolygiadau gan ddefnyddwyr. Mantais arall i hyn yw y bydd yn galluogi pobl nad ydynt yn byw yn yr union ardal i gynllunio eu hymweliadau ymlaen llaw. Gallai'r cyfleuster hwn hefyd ganiatáu i ddefnyddwyr roi gwybod os oes problemau o ran gwaith cynnal a chadw a mynediad ar hyd y rhwydwaith.

Er mwyn hyrwyddo llwybrau, mae angen mwy o wybodaeth am eu cyflwr a'u diben a faint a sut y cânt eu defnyddio. Bydd hyn yn gofyn am asesu a barnu cyflwr presennol y rhwydwaith, er heb yr angen

public paths on the definitive maps and statements. Since Local Government reorganisation in 1996 the Authority has conducted surveys of this network.

Both Table 1 below and Appendix I details the information held by the Authority on the network, surveyed at various times since 1996.

	% By Number	% By length	Lengths in metres
Un-surveyed Paths	28	21	165,967
Good Condition	19	19	150,161
Good condition based on older surveys	32	39	308,199
Fair Condition	18	19	150,161
Works completed and available for public use	3	2	15,806

(Table 1: Condition of Rights of Way Network)

A breakdown of the Rights of Way Network and its condition can be viewed in Appendix II.

2. MARRY THE PLAN TO THE HEALTH IMPROVEMENT AGENDA:

Since Local Government re-organisation the Rights of Way Committee has supported its Officers in contacting user groups not only to encourage them to assist with the upkeep of the network but also to use it for their own benefit, facilitating a way of exercise and healthy living. Physical activity is a key factor in maintaining a healthy lifestyle. In older people the physical activity enjoyed while using the rights of way network in walking on level and undulating ground, climbing stiles, and taking the stairs can help protect against heart disease, cancer, diabetes and obesity. The Authority must promote walking by providing up to date accurate information about the network to the public to encourage and promote organised walking groups. CCBC and Caerphilly Local Health Board (LHB) are currently promoting the following joint initiative:

WALKING THE WAY TO HEALTH:

It sets out specific priority areas that aim to improve health opportunities within the borough by encouraging sedentary populations to become more active. The Council is organising a "Healthy Walking" project in the Upper Rhymney Valley as part of the Healthy Living Centre Initiative. This is funded by grant aid from the Big Lottery. In the remainder of the County Borough the Council is running a Walking the Way to Health project, which is part funded by CCW

i wneud arolygon helaeth o'r rhwydwaith i gyd. Bydd angen adroddiad ar faint a sut y caiff y rhwydwaith ei ddefnyddio a pha mor bwysig ydyw i'r gymuned. Ar hyn o bryd mae 846 cilometr o lwybrau cyhoeddus cofrestredig ar y mapiau a'r datganiadau diffiniol. Ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 mae'r Awdurdod wedi gwneud arolygon o'r rhwydwaith hwn.

Mae Tabl 1 isod ac Atodiad I yn rhoi'r wybodaeth sydd gan yr Awdurdod am y rhwydwaith, a arolygwyd ar wahanol adegau ers 1996.

	% yn ôl nifer	% yn ôl hyd	Hyd mewn metrau
Llwybrau heb eu harolygu	28	21	165,967
Cyflwr da	19	19	150,161
Cyflwr da (ar sail arolygon hŵn)	32	39	308,199
Cyflwr gweddol	18	19	150,161
Gwaith wedi'i gwblhau ac ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	3	2	15,806

(Tabl 1: Cyflwr y Rhwydwaith Hawliau Tramwy)

Ceir dadansoddiad o'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a'i gyflwr yn Atodiad II.

2. CYSYLLTU'R CYNLLUN Â'R AGENDA GWELLA IECHYD:

Ers ad-drefnu llywodraeth leol mae'r Pwyllgor Hawliau Tramwy wedi cefnogi'i Swyddogion wrth gysylltu â grwpiau defnyddwyr nid yn unig i'w hannog i gynorthwyo â chynnal a chadw'r rhwydwaith ond hefyd i'w ddefnyddio er eu budd eu hunain, gan gynnig ffordd o gael ymarfer corff a byw'n iach. Mae gweithgarwch corfforol yn elfen allweddol wrth gynnal ffordd iach o fyw. I bobl hŵn mae'r gweithgarwch corfforol a geir wrth ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy gan gerdded ar dir gwastad a thonnog, dringo dros gamfeydd a defnyddio'r grisiau'n gallu helpu i'w hamddiffyn rhag clefyd y galon, canser, diabetes a gordewdra. Rhaid i'r Awdurdod hyrwyddo cerdded trwy ddarparu gwybodaeth gywir a diweddar am y rhwydwaith i'r cyhoedd, er mwyn annog a hybu grwpiau cerdded trefnedig. Ar hyn o bryd mae CBSC a Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili'n hybu'r gyd-fenter ganlynol:

CERDDED LLWYBR IECHYD:

Mae hon yn nodi meysydd blaenoriaeth priodol gyda'r nod o wella cyfleoedd iechyd yn y fwrdeistref trwy annog pobl eisteddog i fod yn fwy egnïol. Mae'r Cyngor yn trefnu prosiect "Cerdded Iach" yng Nghwm Rhymni Uchaf fel rhan o Fenter y Ganolfan Byw'n Iach. Mae hyn yn cael ei ariannu gan gymorth grant gan y Loteri Fawr. Yng ngweddill y Fwrdeistref Sirol mae'r Cyngor

(through the Lottery) and the WAG. This project is being developed in partnership with the Caerphilly Local Health Board.

WALKING FOR HEALTH INITIATIVE:

Caerphilly County Borough Council in partnership with the Caerphilly Local Health Board are pursuing and supporting the initiative of 'Walking your Way to Health' and offer a number of routes suitable from gentle exercise to the more strenuous routes. Leaflets have been published which detail the routes and the type of terrain to be expected together with a travel time.

3. INTEGRATE THE MANAGEMENT OF RIGHTS OF WAY AND THE COUNTRYSIDE WITH THE COMMUNITY PLANNING PROCESS:

There is a recognised need to involve voluntary groups like the Ramblers Association and various partnerships in making bids for funds. Therefore emphasis must be placed on developing countryside management groups. A recent example of this is the Oakdale and Trinant Partnership and their bid for a circular bridle route at the Oakdale Business Park. Three new projects are also being prepared with community/voluntary groups, which will hopefully be funded by the Forestry Commission's Cydcoed grant scheme. Two of these are located at Argoed and the Darren Valley, which are in Community First areas. These are being

developed with the community councils and will improve access to woodland. The third at Rudry is being developed along with the voluntary group SAFE and will improve access for horse riders to the woodlands in that area. Partnerships will be important for feeding information from all stakeholders at all levels into the plan.

4. ENSURE COMPLIANCE WITH THE DISABILITY DISCRIMINATION ACT 1995 (DDA) THROUGH COST EFFECTIVE MEASURES:

The authority is aware of the difficulties encountered by disabled people when accessing some of the rights of way (RoW). Although the Statutory Guidance directs Authorities that the Improvement Plan must assess the accessibility of local rights of way to blind or partially sighted persons and people with mobility problems, CCBC proposes to assess how the rights of way network caters for people with all kinds of disabilities. The DDA and the Amendments made within the 2005 Act will be used as guidance and the terms with which it outlines an individual as being disabled.

The assessment criteria and Pro-forma that were used to evaluate the RoW network can be found in Appendix XI.

yn rhedeg prosiect Cerdded Llwybr Iechyd, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan CCGC (trwy'r Loteri) a LICC. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Caerffili.

MENTER CERDDED ER IECHYD:

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili'n cefnogi ac yn cynorthwyo â menter 'Cerdded Llwybr Iechyd' ac yn cynnig nifer o lwybrau addas, o ymarfer corff ysgafn i lwybrau mwy egniol. Cyhoeddwyd taflenni sy'n rhoi manylion y llwybrau a'r math o dir i'w ddisgwyl ynghyd ag amser teithio.

3. INTEGREIDDIO RHEOLI HAWLIAU TRAMWY A CHEFN GWLAD I'R BROSES CYNLLUNIO CYMUNEDOL:

Mae angen cydnabyddedig i gynnwys grwpiau gwirfoddol fel Cymdeithas y Cerddwyr a gwahanol bartneriaethau wrth wneud ceisiadau am arian. Felly rhaid rhoi pwyslais ar ddatblygu grwpiau rheoli cefn gwlad. Enghraifft ddiweddar o hyn yw Partneriaeth Oakdale a Thrinant a'i chais am lwybr ceffylau cylchol ym Mharc Busnes Oakdale. Mae tri phrosiect newydd hefyd yn cael eu paratoi gyda grwpiau cymunedol/gwirfoddol, a'r gobaith yw y cânt eu hariannu gan gynllun grantiau Cydcoed y Comisiwn Coedwigaeth. Mae dau o'r rhain yn Argoed a Chwm Darren, sy'n ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Maent yn cael eu datblygu gyda'r cynghorau

cymuned a byddant yn gwella mynediad i goetiroedd. Mae'r trydydd, yn Rhydri, yn cael ei ddatblygu ar y cyd gyda'r grŵp gwirfoddol SAFE a bydd yn gwella mynediad i farchogwyr i'r coetiroedd yn yr ardal honno. Bydd partneriaethau'n bwysig at gyfrannu gwybodaeth i'r cynllun, gan yr holl randdeiliaid ar bob lefel.

4. SICRHAU Y CYDYMFFURFIR Â DEDDF GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD 1995 (DGA) TRWY FESURAU COST-EFFEITHIOL:

Mae'r awdurdod yn gwybod am yr anawsterau y mae pobl anabl yn dod ar eu traws wrth ddefnyddio rhai hawliau tramwy (HT). Er bod y Canllawiau Statudol yn dweud wrth Awdurdodau bod yn rhaid i'r Cynllun Gwella asesu hygyrchedd hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall a phobl â phroblemau symud, mae CBSC yn bwriadu asesu sut y mae'r rhwydwaith hawliau tramwy'n darparu ar gyfer pobl â phob math o anabledau. Caiff y DGA a'r Diwygiadau a wnaed yn Neddf 2005, a'r termau a geir ynddynt i ddynodi unigolyn yn anabl, eu defnyddio fel canllawiau.

Ceir y meini prawf asesu a'r pro forma a ddefnyddiwyd i werthuso'r rhwydwaith HT yn Atodiad XI.

CCBC will endeavour to follow the Disability Rights Commission code of practice relating to Part 3 of the DDA when overcoming physical barriers. The Authority will aim to provide reasonable alternatives to those RoW that have access related problems. The Authority recognises that due to the topography of the area that some RoW will never be fully accessible to all, and therefore “ensuring compliance” may be unachievable. However for those RoW that are not accessible the Authority will establish and record why they are not, at the same time establishing and recording those that are user friendly and have good signage with Braille for example. The assessment and record of information will be incorporated into the communication strategy (Section 5).

5. FOCUS THE RIGHTS OF WAY BUDGET WHERE IT CAN BE USED MOST EFFECTIVELY:

It is important for the Authority to agree and prioritise an annual programme of works with members, balanced between planned and reactive (a programme already exists but it can be refined and more formally agreed). The Rights of Way Cabinet Committee will prioritise works for the forthcoming financial year based on the Action Plan. This will need to be reviewed subject to any change in user priorities.

6. MAKE THE ROWIP A BID DOCUMENT FOR THE LONG DISTANCE EQUESTRIAN ROUTE:

The Authority will continue to develop the routes to a stage of some certainty and where appropriate liaise with partnerships and adjoining LA's. These partners should formally be brought into the bidding process and support their bids. Currently the Authority is actively promoting the creation of a county wide equestrian route together with associated link paths and circular paths. The majority of the route can be accomplished by use of the existing network. There are however areas where new routes will need to be established through agreement or creation. The creation and development of these routes could become an important mechanism for attracting tourism.

7. ENSURE ALL OPEN ACCESS LAND CAN BE REACHED EASILY FROM THE HIGHWAY SYSTEM:

CCBC must complete the open access planning work and identify routes to open up land. Appropriate funding will need to be sought to ensure completion of the works in accordance with relevant legislation.

Bydd CBSC yn ceisio dilyn cod ymarfer y Comisiwn Hawliau Anableded sy'n ymwneud â rhan 3 y DGA wrth oresgyn rhwystrau ffisegol. Bydd yr Awdurdod yn anelu at ddarparu dewisiadau eraill rhesymol yn lle'r HT lle mae problemau sy'n gysylltiedig â mynediad.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd rhai HT, oherwydd topograffi'r ardal, yn gwbl hygyrch i bawb, ac felly na fydd modd "sicrhau cydymffurfiaeth". Fodd bynnag, yn achos yr HT nad ydynt yn hygyrch bydd yr Awdurdod yn canfod a chofnodi pam nad ydynt yn hygyrch, ac ar yr un pryd yn canfod a chofnodi'r rhai sy'n hawdd eu defnyddio ac sydd ag arwyddion da, gyda Braille er enghraifft. Caiff yr asesiad a chofnod y wybodaeth eu cynnwys yn y strategaeth cyfathrebu (Adran 5).

5. CANOLBWYNTIO'R GYLLIDEB HAWLIAU TRAMWY LLE GELLIR EI DEFNYDDIO'N FWYAF EFFEITHIOL:

Mae'n bwysig i'r Awdurdod gytuno ar raglen waith flynyddol a phenderfynu ar ei blaenoriaethau gyda'r aelodau, gan sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith cynlluniedig a gwaith adweithiol. (Mae rhaglen yn bodoli eisoes ond gellir ei mireinio a chytuno arni'n fwy ffurfiol). Bydd Pwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet yn pennu blaenoriaethau'r gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod

ar sail y Cynllun Gweithredu. Bydd angen adolygu hyn gan ddibynnu ar unrhyw newid ym mlaenoriaethau'r defnyddwyr.

6. GWNEUD Y CGHT YN DDOGFEN GAIS AR GYFER Y LLWYBR MARCHOGAETH:

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu'r llwybrau hyd nes y bydd rhywfaint o sicrwydd a, lle bo'n briodol, yn cysylltu â phartneriaethau ac ALLau cyfagos. Dylid dod â'r partneriaid hyn yn ffurfiol i'r broses ymgeisio a chefnogi eu ceisiadau. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wrthi'n hybu creu llwybr marchogaeth ar draws y sir gyda llwybrau cysylltu â llwybrau cylchol cysylltiedig. Gellir cyflawni'r rhan fwyaf o'r llwybr trwy ddefnyddio'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae yna fannau lle bydd angen sefydlu llwybrau newydd trwy gytuno arnynt neu eu creu. Gallai creu a datblygu'r llwybrau hyn fod yn ffordd bwysig o ddenu twristiaid.

7. SICRHAU Y GELLIR CYRRAEDD YR HOLL DIR MYNEDIAD AGORED YN HAWDD O'R SYSTEM PRIFFYRDD:

Rhaid i CBSC gwblhau'r gwaith cynllunio mynediad agored a chanfod llwybrau er mwyn agor tir. Bydd angen ceisio cyllid priodol er mwyn sicrhau y caiff y gwaith ei gwblhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.



8. DEVELOP CIRCULAR WALKING ROUTES AND ENSURE THEIR SUSTAINABILITY AND USE:

There is a need to identify possible routes with walking and community groups and ensure clearance and maintenance as necessary. Appropriate advertising and publicity will be essential to the success of a route. The Authority will continue to promote the enormous possibilities of the network with the various user groups and continue to clear the network where necessary through in house staff, user groups or contractors.

9. AGREE A PROGRAMME TO FINALISE AN ACCURATE DEFINITIVE MAP:

Identify deficiencies in both the definitive map and statement. Secure funding for staff and IT work to turn over to a GIS based system. Agree program that will interface best with corporate systems. The Authority must agree a new nomenclature where necessary, publish and obtain approval. A formal timetable must be set for this work.

8. DATBLYGU LLWYBRAU CERDDED CYLCHOL A SICRHAU EU BOD YN GYNALIADWY AC Y CÂNT EU DEFNYDDIO:

Mae angen canfod llwybrau posibl gyda chymorth grwpiau cerdded a chymunedol a sicrhau gwaith clirio a chynnal a chadw fel bo angen. Bydd hysbysebion a chyhoeddusrwydd priodol yn hanfodol i lwyddiant llwybr. Bydd yr Awdurdod yn parhau i hybu posibiladau enfawr y rhwydwaith gyda'r gwahanol grwpiau defnyddwyr ac yn parhau i glirio'r rhwydwaith lle bo angen trwy ddefnyddio staff mewnol, grwpiau defnyddwyr neu gontractwyr.

9. CYTUNO AR RAGLEN I ROI GWEDD DERFYNOL AR FAP DIFFINIOL CYWIR:

Canfod diffygion yn y cynllun diffiniol a'r datganiad diffiniol. Sicrhau arian ar gyfer staff a gwaith TG i drosi i system seiliedig ar GIS. Cytuno ar raglen a fydd yn rhyngwynebu orau gyda'r systemau corfforaethol. Rhaid i'r Awdurdod gytuno ar gyfundrefn enwau newydd lle bo angen, cyhoeddi a chael caniatâd. Rhaid pennu amserlen ffurfiol ar gyfer y gwaith hwn.

